Symud Freeview i sicrhau bod mwy o donnau awyr ar gael ar gyfer darpariaeth symudol - y 'Rhaglen Clirio 700 MHz'

Diweddariad: 26 Mawrth 2020

Ar 13 Chwefror 2020, cyhoeddodd Ofcom yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith oedd ar y gweill i gyflawni'r rhaglen ar gyfer clirio 700 MHz erbyn y dyddiad cwblhau ym mis Ebrill eleni. Yn y ddogfen honno, daethom i'r casgliad y byddai'r rhaglen yn cael ei chwblhau'n brydlon, er ein bod wedi nodi'r risg o oedi yn sgil digwyddiadau rhyngwladol difrifol.

Yn amlwg ers cyhoeddi'r diweddariad hwnnw, mae'r sefyllfa o ran COVID-19 wedi datblygu'n sydyn gyda goblygiadau difrifol i fywyd yn y DU, yn cynnwys cyfyngiadau ar deithio a gofyn i bobl hunan-ynysu. O ganlyniad i'r sefyllfa eithriadol hon, penderfynwyd gohirio'r ddau ddigwyddiad clirio 700 Mhz terfynol a drefnwyd ar gyfer mis Ebrill. Felly, bydd y rhaglen ar gyfer clirio'r 700 Mhz yn cael ei dal yn ôl hyd nes bydd y risg o COVID-19 wedi lleihau. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid y rhaglen i benderfynu ar amserlen ddiwygiedig ar gyfer clirio'r band 700 Mhz.

Byddwn yn cyhoeddi diweddariad maes o law ar gyfer gwylwyr a allai gael eu heffeithio gan ddigwyddiadau clirio 700 Mhz pan fydd pethau wedi dod i drefn.